# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi Harbour Consultative Committee*

***19 Hydref 2010***

***Adroddiad yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig***

***1 – Mordwyo ac Angorfeydd***

***1.1*** Yn unol â'r gofynion statudol, ac i gydymffurfio â disgwyliad y cyhoedd a'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd, archwiliwyd yr holl Gymhorthion Mordwyo sy'n arwain i Harbwr Aberdyfi gan swyddog o Dŷ'r Drindod ar y 21ain Medi 2010. Mae'r swyddog wedi adrodd yn ddechreuol fod yr holl Gymhorthion Mordwyo yn Aberdyfi, yn cydymffurfio gyda safonau Tŷ'r Drindod. Cynhaliwyd archwiliad gweinyddol o'r holl gymhorthion Mordwyo drwy Wynedd gan Dŷ'r Drindod ar y 16eg Medi 2010 a chafwyd cadarnhad fod y gwaith monitro misol o'r Holl Gymhorthion Mordwyo hefyd o'r safon gofynnol.

***1.2*** Er i ni gael tywydd garw ar rai dyddiau yn ystod tymor yr haf mae'r holl gymhorthion mordwyo wedi aros yn eu lle yn gyson yn ystod y tymor. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r budd a gafwyd o fuddsoddi mewn angorau daear addas a phriodol. Bydd angen cwblhau'r gwaith cynnal a chadw ar yr holl gymhorthion mordwyo yn ystod yr hydref a'r gaeaf a bydd yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau wedi paratoi rhaglen gynhwysfawr i gynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo am y cyfnod yma. Os yw'r tywydd yn caniatáu, disgwylir i'r holl waith cynnal a chadw gael ei gwblhau cyn y Nadolig.

***1.4*** Archwiliwyd yr angorfeydd a ddyrennir i gychod sy'n ymweld, a'r holl angorfeydd parhaol ym mherchnogaeth y Cyngor a'u cynnal a'u cadw cyn dechrau'r tymor. Gosodwyd parth atal cychod a bwiau marcio cyfyngder cyflymder ar y traeth gan staff yr harbwr. Bydd staff yr harbwr yn archwilio ac yn cynnal yr angorfeydd a bydd gofyniad i sicrhau bod yr angorfeydd yn ddiogel dros gyfnod y gaeaf. Bydd yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau yn dosbarthu copi manwl yn y cyfarfod o gofnod y gwasanaeth angorfeydd am 2010.

***2 – Trwyddedau Perchnogion a Chychwyr***

***2.1*** Yn 2010 cyflwynodd yr Uned Forwrol un 'Trwydded Perchennog a Chychwr' i'r fferi sy'n gweithredu yn Aberdyfi a chyflwynodd yr Awdurdod bedair 'Trwydded Perchennog' a saith 'Trwydded Cychwr' i'r cychod yn gweithredu yn Abermaw. Mae ardal y ddau harbwr wedi eu diffinio fel Dyfroedd wedi eu Categoreiddio o dan MSN-1776 (Hysbysiad Cychod Masnachol)

***2.2*** Yn flaenorol mae aelodau o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw wedi mynegi pryder am lefel y cymwysterau a'r profiad sydd ei angen i forwr ddal Trwydded Cychwr ac fe awgrymwyd gan yr Aelodau bod yr Uned Forwrol yn ymchwilio ymhellach i sicrhau fod y sail dros gyflwyno Trwydded Cychwr yn glir ac yn ddiamwys. Roedd gofyniad hefyd i'r Uned Forwrol sicrhau bod y gofyniad o ran cyflwyno 'Trwydded Perchennog' hefyd yn glir.

Er mwyn gwneud y sefyllfa'n glir bu'n rhaid i'r Uned Forwrol gyflwyno'r newidiadau arfaethedig i bob un Pwyllgor Harbwr Ymgynghorol ble mae rhan o'r harbwr yn syrthio o fewn y diffiniad o 'Ddyfroedd wedi eu categoreiddio' ac felly rydym hefyd angen barn Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi am y cynnig trwyddedu terfynol.

Trafodwyd pryderon Pwyllgor Harbwr Abermaw yn helaeth gyda'r Syrfëwr Morwrol a dywedwyd yn bendant y dylai nifer y teithwyr oedd i'w cludo ar gwch trwyddedig gael ei nodi'n glir ar y Drwydded a hefyd ar y ffurflen arolwg sydd i'w chwblhau gan y syrfëwr morwrol. Roedd hyn yn sicrhau na fyddai unrhyw amwysedd am nifer y teithwyr a ganiatawyd gan y syrfëwr i'w cludo ar fwrdd y cwch. Roedd hefyd yn gwneud yn glir fod angen cysondeb o ran y math o offer diogelwch oedd yn ofynnol i fod ar fwrdd y fferi a bod yr offer yma'n cael ei archwilio gan y syrfëwr morwrol yn ogystal â'r angen i'r offer fod ar gael bob amser ar fwrdd y cwch.

***2.4*** Bydd y diffiniad o 'Dywydd Ffafriol' yn gymwys i bob cwch sy'n gweithredu yn Nyfroedd Gwynedd sydd wedi eu categoreiddio (sy'n cynnwys afon Menai ac eithrio Pwll Ceris) ac mae wedi ei seilio ar y datganiad a ganlyn sydd yn rhan o Cod Ymarfer y r MBA i gychod masnachol:-

***'Favourable Weather' means wind, sea and visibility conditions which are deemed by the skipper to be safe for a small vessel to operate within the limits applied to it; or, in any other case means conditions throughout a voyage or excursion in which the effects either individually or in combination of swell, height of waves, strength of wind and visibility cause no hasard to the safety of the vessel, including handling ability.***

***In making a judgement on favourable weather, the skipper should have due regard to official weather forecasts for the service area of the vessel or to weather information for the area which may be available from the MCA or other coastal safety organisations or Harbour Authority.***

Fel a nodwyd yn y datganiad uchod a gyflwynwyd gan yr MCA a Phwyllgor yr YDSA (Cymdeithas Dylunwyr a Syrfewyr Cychod Hwylio) sydd hefyd wedi eu hawdurdodi gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, mae hi'n eglur fod meistr y cwch yn gyfrifol am wneud penderfyniad os yw cyflwr y tywydd pan fwriedir teithio yn ddiogel i'r cwch fwrw ymlaen ar y daith. Mae diogelwch teithwyr o'r pwysigrwydd pennaf a dylai pob Capten fod yn sicr fod cyflwr y tywydd ar y pryd yn ffafriol i'r daith sydd i'w chymryd.

***2.4*** Mae'r cyfnod pan fo gwasanaeth fferi yn gallu cael ei gynnal wedi ei gyfyngu i oriau golau dydd yn unig; un awr cyn codiad haul ac un awr ar ôl machlud. Nid yw gweithredu cwch trwyddedig y tu allan i'r oriau yma wedi ei awdurdodi gan y drwydded ac felly ni chaniateir hyn.

***2.5*** Mae copi o'r Trwyddedau Perchnogion presennol a'r rhestr gyfredol o Offer Diogelwch yn atodol i'r adroddiad a gofynnir am farn yr Aelodau am eiriad y drwydded ddiwygiedig a'r rhestr offer ddiwygiedig a ddefnyddir yn 2011. Bydd angen parhau i arddangos y dogfennau hyn ar fwrdd cwch trwyddedig bob amser pan fo'n weithredol yn y dyfroedd wedi eu categoreiddio.

***2.6*** Fe fydd yr Aelodau yn sylwi ar y ffurflen gais ddrafft am 2011 sy'n atodol a bod angen cyflwyno'r dystiolaeth a ganlyn:-

- Tystysgrif Cwch Pŵer RYA Lefel 2 (lleiafswm) gyda thystiolaeth log 12 mis o brofiad perthnasol
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf ddilys
- Trwydded VHF Gyfyngedig
- Tystysgrif Goroesi ar y Môr
- Tystysgrif MCA ML5 Ffitrwydd Meddygol (wedi ei haddasu i drwydded leol)

Y bwriad yw bod y Cyngor yn cyflwyno ffurflen gais ddiwygiedig sy'n cyfateb i'r un MCA ML5 gan na fydd angen cyflwyno'r ffurflen orffenedig i'r MCA/RYA.

I'r rhai hynny na fedrant ddarparu tystiolaeth log, yna fe fydd yr Uned Forwrol yn cynnal asesiad annibynnol o fedrusrwydd yr ymgeisydd.

***2.8*** Yn ystod rhan gyntaf 2010 gwahoddodd Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau bartïon oedd â diddordeb i roi sylwadau am eu gwaith ymchwil i'r Trwyddedau Cychwyr presennol. Ymatebodd yr Uned Forwrol i'r bwriad a bydd copi llawn o'r ymatebion ar gael i'r Aelodau ar gais.
Rydym yn rhagweld y bydd yr Asiantaeth yn ystyried cyflwyno Trwydded Cychwr newydd Lefel Dau yn y dyfodol agos.

***3 – <u>Ystadegau'r Harbwr</u>***

***3.1*** Fel a nodir yn y tabl yn yr atodiad, cofrestrodd **965** o Fadau Dŵr Personol gyda Chyngor Gwynedd yn 2010. Mae hyn yn cymharu gyda **892 am yr un cyfnod** yn 2009, cynnydd o **73** yn 2010. Cofrestrodd **1389** o gychod pŵer gyda Chyngor Gwynedd gyda mwyafrif y cychod, cyfanswm o **714** yn cofrestru drwy ohebiaeth uniongyrchol gyda'r Swyddfa Forwrol.

***3.2*** Fel a nodwyd yn y tabl, dim ond **37** o Gychod Pŵer a **27** o Gychod Dŵr Personol a gofrestrodd gyda harbwr Aberdyfi yn 2010. Nid yw hi'n bosibl lansio yn Nhywyn oherwydd y gwaith adeiladu ac fell ni chofrestrwyd unrhyw gychod yn Nhywyn. Mae'r ffi cofrestru ar gyfer cychod pŵer a Cherbydau Dŵr Personol yr un fath â'r llynedd, heb gynnydd yn 2010 ar gyfer chwyddiant blynyddol. Arhosodd y ffioedd cofrestru yn ***£15.00*** ar gyfer cais drwy'r post, neu gallai'r ymgeisydd gofrestru ar y traeth yn uniongyrchol am ffi uwch o ***£20.00***. Erys y ffioedd lansio yn ***£12.00*** y dydd neu ***£130.00*** am y tymor.

***3.3*** Yn y tabl yn yr atodiad fe welir fod **97** o gychod pleser wedi angori yn yr harbwr eleni a bod hyn yn cymharu gyda **102** yn 2009. Mae hyn yn golygu fod **80%** o'r angorfeydd yn cael eu defnyddio yn 2010, gostyngiad bychan o'i gymharu gyda 2009. O'r angorfeydd a ddefnyddiwyd roedd **44%** yn cael eu defnyddio gan drigolion lleol sy'n byw yng Ngwynedd yn barhaol ac roedd **56%** yn cael eu defnyddio gan unigolion sy'n byw tu allan i'r sir.

***3.4*** Gan gofio'r cynnydd o 17.5% i 20% mewn TAW yn 2011, rhagwelir y bydd yn rhaid cynyddu'r ffioedd er ni fydd hyn yn effeithio ar incwm net Cyngor Gwynedd. Roedd treth ychwanegol i'w thalu ar ddisel coch a ddaeth i rym ar 1af Hydref 2010 i .4701 ceiniog y litr a bydd yn cynyddu eto i .4762 y litr yn Ionawr 2011. Bydd y dreth ychwanegol yn daladwy ar bob litr o danwydd a ddefnyddir ar gyfer gyrru cwch. Nid oes unrhyw dreth ychwanegol yn daladwy ar ddisel coch a ddefnyddir gan gychod masnachol.

***4.0 <u>Cyllidebau'r Harbwr</u>***

***4.1*** Yn atodol er gwybodaeth yr Aelodau, mae adroddiad cyllideb terfynol yr harbwr am y flwyddyn ariannol **2009/10** ynghyd â'r sefyllfa ariannol hyd at 31ain Awst 2010 a chyllideb gwariant yr harbyrau a'u targedau incwm am ***2010/11.*** Bydd yr aelodau yn sylwi bod gwarged o ***£6,548*** o'i gymharu gyda'r incwm yn erbyn gwariant yn Aberdyfi yn 2009/10. Er hynny, bydd yr aelodau hefyd yn nodi fod y pennawd incwm ar Rent yn fwy na'r targed o tua 7K ac mae'n bosib fod yr incwm yma wedi cael ei roi o dan y pennawd anghywir. Bydd aelodau hefyd yn nodi'r tan wariant o £11,783.91 yn erbyn y gyllideb a ddyrannwyd, boed hynny ond dros dro ar gyfer cynnal a chadw (Morwrol).

***4.2*** Oherwydd y tywydd gwael a gafwyd yn ystod prif fis yr haf sef mis Awst eleni, mae'n debygol iawn na fydd penawdau incwm yr Uned Forwrol yn cyrraedd eu targed incwm yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd angen bod yn hynod wyliadwrus yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn rhwymo mwy o arian na'r hyn sydd yn y gyllideb. Bydd yr Harbwr feistr a'r Swyddog Morwrol - Harbyrau yn darparu rhaglen gynnal a chadw fanwl ar gyfer tymor yr hydref er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant yn harbwr Aberdyfi am weddill 2010/11.

***4.3*** Unwaith eto yn y flwyddyn ariannol hon, mae pryderon am y targed incwm i weithgareddau harbwr Aberdyfi  Bydd aelodau'n nodi y dengys yr atodiadau mai **£39,270** yw'r targed incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Hyd yn hyn, mae incwm harbwr Aberdyfi wedi cyrraedd **£24,552**, sef diffyg o **£14,717** o dan y targed.  Ni ragwelir y bydd yna ychwanegiad sylweddol i'r incwm rhwng mis Hydref a mis Mawrth 2011 heblaw am ffioedd storio yn y gaeaf.

## ***6.0*** ***<u>Cyfarfodydd Pwyllgorau Harbwr</u>***

***6.1*** Cyflwynwyd cais i Gyngor Gwynedd gan Gyngor Cymuned Aberdyfi yn gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried cyflwyno un cyfarfod arall o'r Pwyllgor Harbwr i galendr holl bwyllgorau'r Cyngor, sydd wedi'u rhaglennu'n barod. Gofynna Cyngor Cymuned Aberdyfi i'r cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor harbwr fod yn gyfarfod ar y cyd o gynrychiolwyr pob Pwyllgor Harbwr ac iddo gael ei gynnal ar amser hanner ffordd rhwng y Pwyllgorau a raglennwyd yn barod, un ai yn ystod misoedd yr haf, neu ar ddiwedd mis Rhagfyr/dechrau mis Ionawr.

***6.2*** Atgoffir aelodau bod cynrychiolwyr o'r Pwyllgorau Harbwr eraill yn aelodau cyfetholedig o bob un o'r Pwyllgorau Harbwr yn barod, ac y cyflwynwyd y cynllun hwn gan yr Uned Forwrol a pharciau Gwledig er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth sy'n berthnasol i bob harbwr yn cael ei rhannu rhwng y Pwyllgorau. Gwahoddir cynrychiolwyr o Bwyllgorau Harbwr eraill i fynychu gyda'r bwriad o raeadru'r wybodaeth yn uniongyrchol i'r Pwyllgorau Harbwr hynny y maent yn eu cynrychioli.

***6.3*** Gofynnir am safbwynt yr Aelodau o ran cynnig Cyngor Cymuned Aberdyfi i sefydlu cyfarfod ar y cyd o'r holl Bwyllgorau Harbwr yn ychwanegol i'r cyfarfodydd presennol o'r Pwyllgor Harbwr a gynhelir pob chwe mis. Barn yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yw bod y system bresennol yn gweithredu yn unol â'r Adolygiad Porthladdoedd Bwrdeistrefol ac yn galluogi i Aelodau dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ac i gyfrannu a chyflwyno sylwadau ar God Diogelwch Morol Porthladdoedd yr harbwr perthnasol.

***6.4*** Yn ystod y misoedd nesaf rhagwelir y bydd yr Uned Forwrol yn adolygu'r cyfansoddiad sy'n berthnasol i bob Pwyllgor Harbwr Ymgynghorol gyda'r bwriad o gyflwyno cyfansoddiad drafft i bob un o'r Pwyllgorau yn 2011.  Bydd angen ystyried cyfansoddiad newydd i harbyrau Aberdyfi, Abermaw a Phwllheli.   Nodir aelodaeth Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog yng ngorchymyn diwygio Harbwr Porthmadog.

## ***7.0 -*** ***<u>Dyfroedd Ymdrochi</u>***

***7.1*** Cyrhaeddodd ansawdd y dŵr ymdrochi yn Aberdyfi 2009 y Safon Canllaw gorfodol ac felly er nad lwyddwyd i gael y safon ofynnol i Wobr Rhyngwladol y Faner Las derbyniodd Wobr Traeth Tref Glan Môr yn 2010.  Mae ansawdd dŵr ymdrochi traeth Aberdyfi yn 2010 ar y ffin hyd yma ond fe fydd yn rhaid i ni aros hyd nes fo'r canlyniadau wedi eu cyhoeddi cyn y gellir dadansoddi ansawdd y dŵr ymdrochi am 2010.

***7.2*** Yn 2015 fe fydd y Gyfarwyddeb Ewropeaidd Dyfroedd Ymdrochi yn dod i rym a bydd cyfarfod â meini prawf y Dyfroedd Ymdrochi yn 2015 yn heriol.   O'r drafodaeth ddechreuol gyda swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd ac o gofio am safon anwadal y dŵr ymdrochi yn Aberdyfi dros y pum mlynedd diwethaf mae hi yn bosibl y gallai Dŵr Ymdrochi Aberdyfi gael ei ddosbarthu fel bod o safon wael o dan y gyfarwyddeb newydd yn 2015.

***7.3*** Er mwyn sicrhau bod trigolion lleol ac ymwelwyr Aberdyfi yn cael eu cyfeirio at y dŵr ymdrochi mwyaf ffafriol yn yr ardal ac iddynt benderfynu ar ble i ymdrochi, mae angen rhoi ystyriaeth i'r posibilrwydd o adnabod traeth ymdrochi arall yn y cyffiniau.   O'r drafodaeth ddechreuol gyda swyddogion o Asiantaeth yr Amgylchedd, gallai'r gwaith profi rhagarweiniol ar y dŵr ymdrochi amgen ddechrau yn y dyfodol agos.

**7.4** Ystyriwyd dau draeth ymdrochi fel 'ymgeiswyr' ac rydym wedi edrych ar y posibiliadau tymor hir i'r ddau draeth ymdrochi. Y dewis mwyaf ffafriol a realistig yw'r traeth a adnabyddir yn lleol fel 'Traeth Glasfor'. Pe byddai'r traeth yma'n cael ei nodi fel traeth ymdrochi yn y dyfodol agos, o ystyried lleoliad gwledig y traeth mae hi'n debygol y byddai yn cael ei ystyried fel traeth Gwobr Arfordir Glas. Mae'r wobr yma'n cydnabod traethau gwledig sy'n cyrraedd y safonau uchaf o ran dŵr ymdrochi yn ystod y tymor. Ychydig iawn o seilwaith sy'n gysylltiedig â thraethau gwledig ac nid oes unrhyw ofyniad i ddarparu cyfleusterau fel y rhai sydd ar gael ar draethau trefi gwyliau.

**7.5** Defnyddir y dŵr ymdrochi presennol yn Aberdyfi yn sylweddol gan rai sy'n mwynhau chwaraeon dŵr. Mae Traeth Ymdrochi a nodwyd ond yn ystyried nifer yr unigolion sydd yn nofio yn y dŵr. Nid oes angen i'r meini prawf Traeth Ymdrochi ystyried nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn unrhyw fath o chwaraeon dŵr yn yr ardal benodol, er y gallai'r gamp olygu trochi yn y dŵr.

**7.6** Er mwyn sicrhau bod yr aelodau yn hollol ymwybodol o oblygiadau'r gyfarwyddeb newydd yn 2015 y bwriad yw gwahodd Asiantaeth yr Amgylchedd i gyfarfod nesaf o Bwyllgor Ymgynghorol yr harbwr sydd wedi ei drefnu ym mis Chwefror/Mawrth 2011.

O edrych ymlaen yn gadarnhaol tuag at 2011, pe byddai ansawdd cyffredinol dŵr ymdrochi Aberdyfi yn cyrraedd y safon ofynnol yn 2010, yna fe fydd yr Uned Forwrol yn cyflwyno cais am y Wobr Tref Glan Môr unwaith eto yn 2011. Rydym o'r farn fod gan wobr mor bwysig effaith gadarnhaol ar yr economi leol ac yn galluogi'r Cyngor i fesur ansawdd a safon traethau Gwynedd yn erbyn traethau eraill yn y Deyrnas Gyfunol. Er hynny, mae'n rhaid pwysleisio nad oes gan yr Uned Forwrol gyllideb ar gyfer ceisiadau traethau gan fod y gyllideb wedi ei nodi fel arbediad mewn gwariant yn 2008.

Mae canlyniadau Dŵr Ymdrochi 2010 yn atodol er gwybodaeth, er mae'n rhaid pwysleisio y bydd samplau pellach yn cael eu cymryd yn ystod gweddill y tymor a chyhoeddir safon cyffredinol terfynol y Dŵr Ymdrochi gan Asiantaeth yr Amgylchedd ym mis Tachwedd.

## **8.0** ***Wal y Cei***

**8.1** Ym mis Mawrth 2010 gwnaed arolwg manwl gan beiriannydd adeiladu o'r pentwr haenau sy'n cynnal wal y cei yn Aberdyfi Archwiliodd yr adroddiad beth oedd cyflwr presennol y pentwr haenau ac roedd yn dilyn ymlaen o astudiaethau blaenorol pellach a gynhaliwyd yn 2006 gan Bureau Vitas Consulting Cyf ac astudiaeth gynhaliwyd gan Posford Duvivier yn 1998. Mae copi o adroddiad 2010 yn atodol er gwybodaeth.

**8.2** Casgliad yr adroddiad yw bod gweddill oes y pentwr haenau oddeutu chwe blynedd ac mae'r dull cyfrif a ddefnyddiwyd wedi ei seilio ar yr oes effeithiol a'r pentwr haenau 'Frodingham' a ddefnyddiwyd yn Aberdyfi

**8.3** Bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael gan fod wal y cei o bwysigrwydd sylweddol yng ngweithrediad yr harbwr ac mae hefyd yn cynnal seiliau Canolfan Dyfi, y Ganolfan Ymwelwyr a Chlwb Hwylio Aberdyfi. Rydym yn gwneud ymholiadau os fyddai wal y ceir yn cael ei hystyried fel strwythur amddiffyn yr arfordir neu fel wal cei mwynderol. Gallai diffiniad pwrpas y wal benderfynu ar lefel yr ariannu all fod ar gael pan fo'r pentwr haenau yn cael ei newid.

**8.4** Fel y gwŷr yr aelodau, mae cynnig cadarnhaol iawn wedi ei wneud i osod pontŵn a phont fynediad ar wal y cei. Mae'r cynnig yn golygu gosod pontŵn fyddai'n ymestyn o'r man mwyaf dwyreiniol ar wal y cei am bellter o tua phedwar ugain metr. Byddai ochr gorllewinol y pontŵn arfaethedig yn cyd redeg gyda phwynt mwyaf dwyreiniol y jeti.

Yn anffodus, oherwydd cyflwr presennol wal y cei bu'n rhaid oedi gyda'r bwriad. Rhagwelir y bydd y cynnig yn cael ei ystyried ymhellach yn ystod cam dylunio wal newydd y cei ac fe ragwelir y bydd y

gwelliannau arfaethedig i’r cyfleusterau glanio i’r cychod sy’n ymweld ag effaith gadarnhaol ar yr harbwr.

## *9.0* ***Ardal Storio Dingis***

***9.1*** Yn 2009 gosododd yr Uned Forwrol rac storio cychod gweini ar ben y llithrfa sef ardal storio’r dingis. Diben y rac storio yw galluogi y rhai hynny gydag angorfa yn yr harbwr i ddiogelu cwch gweini’r cwch hwylio yn agos at y man glanio. Yn anffodus, defnyddir yr ardal storio fwyfwy ar gyfer ceufadau. Hyd yma mae 24 o geufadau yn y rac storio. Er ein bod yn croesawu ceufadau yn yr harbwr mae storio ceufadau yn cyfyngu’r lle storio cyffredinol a ddylai fod ar gael i’r rhai hynny sydd ag angorfa yn yr harbwr. Yn ystod y misoedd nesaf fe fydd yr Harbwr Feistr yn sicrhau fod ceufadau yn cael eu symud o’r man storio a bod y rac yn cael ei defnyddio yn unig i storio cychod gweini i gychod hwylio.

Yn ddiweddar, gosodwyd cynhwysydd yn ardal storio’r dingis heb ganiatâd. Rydym wedi adnabod y perchennog ac fe roddwyd cyfarwyddyd i’r cynhwysydd gael ei symud o’r safle ar unwaith. Er bod ôl-gerbydau a ddefnyddir i ddiogelu a storio offer hwylfyrddio yn cael ei gadw yn yr ardal mae hi’n bosib symud yr ôl-gerbydau hyn pe byddai angen cael mynediad i’r ardal. Y bwriad yw codi ffi storio ar yr ôl-gerbydau o’r 1af Ebrill 2011.

***9.2*** Mae’r postyn sy’n diogelu’r rhwystr i ardal cadw’r dingis wedi ei niweidio ac nid oes modd ei drwsio ac felly nid oedd hi’n bosibl rheoli’r ardal yn effeithiol yn niwedd yr haf. Mae hi’n hanfodol fod y postyn yn cael ei newid cyn gynted â phosibl ac fe nodwyd fod angen rhoi sylw i’r gwaith yma cyn mis Rhagfyr.